

**CYDBWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A
DIWYLLIANT AC IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
17 MEHEFIN 2021**

Cofnodion cyfarfod Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuencid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 17 Mehefin 2021.

YN BRESENNOL: **Cynghorwyr** Mike Allport, Janet Axworthy, Marion Bateman, Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, David Healey, Gladys Healey, Joe Johnson, Tudor Jones, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Ian Smith, Martin White, David Williams a David Wisinger

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Lynn Bartlett, David Hytch a Mrs Rebecca Stark

YMDDIHEURIADAU: Carol Ellis, Cindy Hinds, Mrs Wendy White

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwr.

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg; Y Cynghorydd Christine Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Uwch Reolwr Senior Manager (Cynhwysiant a Dilyniant) ar gyfer eitemau rhif 5 ac 8 ar y rhaglen) Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen), Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) ac Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) (ar gyfer eitem rhif 7 ar y rhaglen)

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

1. PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod

PENDERFYNWYD

Bod y Cynghorydd Hilary McGuill yn cael ei phenodi yn Gadeirydd ar gyfer y cydbwyllgor.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

3. CYDNABYDDIAETH I DAVID HYTCH A REBECCA STARK

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod i roi ddweud rhywbeth am gyfraniad David Hytch a Rebecca Stark i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Daeth eu cyfnod yn y swydd fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor i ben ym mis Mehefin 2021. Dywedodd ei bod wedi gweithio gyda David a Rebecca dros nifer o flynyddoedd a'u bod yn bobl oedd yn llawn gwybodaeth a diolchodd iddynt am eu cyfraniadau.

Diolchodd y Cynghorydd Dave Healey i David a Rebecca am fod yn aelodau gweithgar o'r pwyllgor ymhell cyn iddo ymuno â'r Cyngor. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant yn bwyllgor cadarn ac roedd aelodau llewg yn sicrhau ei fod yn parhau'n frwdfrydig ac effeithiol wrth herio. Fe gyfeiriodd at y cyfarfod diwethaf pan gafodd Aelodau y cyfle i ddiolch i David am ei gyfraniad dros y blynyddoedd yn enwedig fel Is-gadeirydd, ac roedd yn gwerthfawrogi ei gefnogaeth yn y swydd honno. Yna aeth ymlaen i ddiolch i Rebecca, gan nad oedd hi'n gallu mynychu'r cyfarfod hwnnw, am ei chefnogaeth a'i chyfraniad dros y blynyddoedd. Roedd Rebecca bob amser yn llawn gwybodaeth, yn cyfrannu'n ddilys i'r pwyllgor ac roedd hi'n gynorthwyol ac yn gefnogol pan oedd angen cynorthwyo ag arolygon Estyn ac roedd hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau ohonynt am eu cyfraniadau gwerthfawr yn y Pwyllgorau Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Chydbwyllgorau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Roedd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wrth ei bodd yn diolch i David a Becky a dywedodd ei bod wedi bod yn bleser gweithio gyda nhw. Rhoddodd deyrnged i'w cefnogaeth a her enfawr dros y blynyddoedd ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Grwpiau Monitro Perfformiad Ysgolion, a dywedodd bod gwasanaethau addysg yn Sir y Fflint mewn lle gwell yn sgil cyfraniadau'r ddau. Diolchodd i'r ddau ar ei rhan hi, y tîm o Uwch Swyddogion, ysgolion a'r portffolio cyfan.

Gofynnodd y Cadeirydd am ganiatâd i symud eitem rhif 8 ar y Rhaglen i ddilyn eitem rhif 5 ar y rhaglen. Cafodd hyn ei gefnogi a'i eilio.

4. PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Dilyniant) yr adroddiad ac eglurodd bod y fformat yn wahanol yn sgil lefel y data sydd ar gael. Yn yr adroddiad cafwyd drosolwg o'r gwaith a'r gefnogaeth a ddarparwyd i blant sy'n derbyn gofal yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 sydd wedi cael ei effeithio'n drwm gan y pandemig.

Rhoddodd wybodaeth am gydweithwyr sydd wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal, diweddariad am y nifer o blant sydd angen cymorth mewn ysgolion a'r rhai sydd angen cymorth arbenigol mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Rhoddwyd gwybodaeth am y nifer o ddisgyblion a gafodd Ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig a sut mae hynny'n cymharu'n genedlaethol. Cyfeiriodd at ei gwaith gyda'r grŵp arian o fewn tîm ymateb i argyfwng sydd wedi gwella'r cydweithio rhwng Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod anghenion plant sy'n derbyn gofal a phlant diamddiffyn yn cael eu hadnabod a'u cefnogi drwy'r Canolfannau Cydnerthu. Cafodd gliniaduron eu

dosbarthu i'r garfan yma'n gyflym ac ynghyd â'r gefnogaeth a roddwyd gan y Cydlynnydd Dysgu Plant Diamddiffyn, fe sicrhawyd bod plant yn gallu cael mynediad at addysg ar-lein. Fe gadarnhaodd bod gwasanaethau a phrosesau mewn cysylltiad ag AAA wedi symud ar-lein yn gyflym a'u bod yn parhau i gefnogi'r garfan yma gan fod ganddynt lefel uwch o angen.

Yna cyfeiriodd yr Uwch-Reolwr at Adran 1.06 yn yr adroddiad gan ddweud bod hyfforddiant yn ffocws gwirioneddol ar gyfer addysg gyda sesiynau megis Ymarfer ar Sail Trawma a Theori Anogaeth ac Ymlyniad yn cael eu darparu. Mae'r Awdurdod wedi prynu Offeryn Proffilio ac Asesu Boxall sydd yn adnabod anghenion disgyblion gan sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei ddarparu i'w galluogi i ddatblygu. Mae ysgolion wedi cael trwyddedau a hyfforddiant i ddefnyddio'r offeryn yma'n effeithiol. Yna cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) trwy GwE, ynghyd ag eglurhad ynglŷn â sut mae ysgolion wedi gweithio mewn clystyrau i gyflwyno i ceisiadau i ymgeisio am y grant. Fe dynnwyd sylw at ffurfiau eraill o addysg gyda'r ffocws ar les gydag amrywiaeth o gymorth gan swyddogion ar gael i blant. Fe orffennodd drwy roi gwybodaeth am ganlyniadau disgyblion blwyddyn 11. Roedd pob un ohonynt wedi cyflawni'r hyn oedd ei angen arnynt i fwrw ymlaen â'u dyheadau.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie ei fod yn adroddiad diddorol iawn a gofynnodd y cwestiynau canlynol:-

Yn gyntaf ym mhwynt 1.07 ar dudalen 7, roedd yn deall sut roedd yr arian yma'n cael ei wario, ond gofynnodd a oedd y ffigur yn ddigonol ac os nad ydyw, a ddylid darparu adnoddau gwell?

Yn ail, ym mhwynt 2.01 ar dudalen 8 gyda'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth a'r cyllid yn cael ei ddyrannu lle mae'r plentyn byw, a oedd gwybodaeth ar gael am faint o blant roedd yr Awdurdod yn ei golli neu ei ennill ac a oedd y sefyllfa yr un fath yn Lloegr gan bod yr awdurdod mor agos at y ffin.

Gan ymateb i'r pwynt cyntaf, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr bod y lwfans Grant Datblygu Disgyblion wedi'i osod fesul plentyn ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac nid Sir y Fflint. Gydag ysgolion yn gweithio mewn clystyrau i gael swm penodol o gyllid, mae hyn yn darparu lefel o adnoddau i dalu aelod o staff i gefnogi disgyblion ar draws eu clystyrau o ysgolion. Roedd y Prif Swyddog yn cytuno gan ddweud bod ganddynt fwy o rym gwario drwy weithio mewn clystyrau.

Gan ymateb i'r ail bwynt cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a chadarnhaodd eu bod dal yn aros am wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. O ran y niferoedd y tu allan i'r sir, nid oedd y ffigur ganddi wrth law ond fe gadarnhaodd bod 126 disgybl yn mynychu Ysgolion Sir y Fflint ac roedd y gweddill, tua 40, naill ai gydag awdurdodau eraill yng Nghymru neu Lloegr. Dywedodd fod yna oblygiadau o ran llwyth gwaith yng Nghymru i swyddogion oedd â rolau a chyfrifoldebau penodol, ac o ran disgyblion yn cael eu hanfon i Loger, fe fyddai yna oblygiadau i'r Cyngor. Ni fyddai yna oblygiadau o gwbl i rai gyda deddfwriaeth Lloegr yn darparu'r gofal amdanynt ond roedd yna garfan lle bydd y Cyngor yn parhau i fod â chyfrifoldeb.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Jean Davies a Mike Lowe.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y cydbwyllgor yn ymroi i fod yn Rhieni Corfforaethol i Blant sy'n Derbyn Gofal, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a herio darpariaeth o fewn sefydliadau addysgol Sir y Fflint.
- (b) Y dylai'r cydbwyllgor fynd ati i annog yr holl staff addysgol i hyrwyddo lles addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn sefydliadau Sir y Fflint ar 'lefel ysgol gyfan'.

5. DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Dilyniant) yr adroddiad oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru. Roedd y Ddeddf yma fod i ddod i rym ym mis Medi 2020 ond cafodd ei ohirio tan fis Medi 2021. Rhoddodd wybodaeth am yr addasiadau mae LIC wedi'u gwneud o ran trawsnewid Datganiad AAA i Gynllun Datblygu Unigol a'i weithredu ar gyfer rhai Ôl-16 gyda'r ystod oedran bellach yn 0- 25 oed. Mae LIC wedi adnabod plant mewn grwpiau blwyddyn penodol sydd ag AAA a fyddai'n symud i'r system newydd ar bwynt arferol o drawsnewid gyda Datganiad AAA yn parhau yn ei le hyd nes bod y trawsnewid wedi digwydd.

Roedd Paula Roberts yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu (ADY) wedi arwain Trawsnewid ADY ar gyfer Sir y Fflint gan sicrhau bod ysgolion a'r awdurdod lleol yn barod ar gyfer y newidiadau yma. Cyhoeddwyd y cod gweithredol ym mis Ebrill ac roeddynt dal yn aros am canllawiau ar gyflawni gan LIC, ond gobeithio y byddent yn eu derbyn erbyn diwedd y tymor ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch ymatebion i nifer o gwestiynau. Roedd ysgolion yn cael eu cefnogi o ran "ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn" oedd yn greiddiol i hyn, ac mae Paula Roberts wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi mewn cysylltiad â'r cod er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall beth oedd ei angen ganddynt.

Ers 1 Ionawr 2021, roedd angen i bob ysgol fod â Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ynghyd â Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar yn y Cyngor, ac fe gadarnhaodd bod yr unigolion yma wedi dechrau gweithio. Rhoddodd yr Uwch Reolwr ddiweddariad am waith aml asiantaeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg oedd yn cynnwys Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Dynodedig o'r Bwrdd Iechyd. Roedd gwybodaeth am y system newydd, amddiffyniad cyfreithiol i blant a chyllid grant a ddefnyddiwyd i alluogi Cydlynwyr ADY i gefnogi ysgolion wedi bod yn amhrisiadwy iddynt. Gorffennodd yr Uwch Reolwr drwy ddweud bod LIC yn ystyried hyn fel proses niwtral o ran cost ond roedd yna oblygiadau i'r awdurdod oedd wedi ymestyn lefel y swyddogion oedd eu hangen i weithredu'r ymatebion o fis Medi.

Roedd y Prif Swyddog yn ddiolchgar am waith caled yr Uwch Reolwr, yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu a'r tîm a fu'n gweithio mor galed i gefnogi ysgolion.

Diolch i ymdrechion y tîm yma, roedd Sir y Fflint mewn sefyllfa gadarn o ran y Ddeddf newydd hon.

Roedd Cynghorydd Mackie yn cytuno â'r Prif Swyddog a dywedodd y dylai'r pwyllgor hefyd ddiolch i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu am ei gwaith hi yn sicrhau bod yr awdurdod wedi cyrraedd lle mae rŵan. Gofynnodd y Cynghorydd Mackie y cwestiynau canlynol:-

Yn gyntaf ym mhwynt 1.03 yr adroddiad mynegodd bryderon bod LIC wedi gosod yr amserlen i'w gweithredu ond bod Awdurdodau Lleol dal yn aros am y canllawiau er mwyn cefnogi hyn. Dywedodd yr Uwch Reolwr bod LIC wedi gweithio'n galed i geisio bodloni'r dyddiad cau gyda phwysau gan ysgolion ac awdurdodau lleol oedd yn ceisio ei wthio yn ôl eto. Roedd y broses wedi dechrau yn 2007 i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol i blant oedd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a bod y cwestiynau dilys roedd Paula Roberts yn eu gofyn o'i safbwynt hi yn y swydd wedi galluogi adolygiad a thrafodaeth. Yna rhoddodd wybodaeth am y Gorchmynion Cychwyn gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Gweinidog i weld a ellir adolygu'r rhain. Roedd LIC yn gwrnado ar y pryderon a godwyd ac roedd eisiau sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gywir.

Yn ail ym mhwynt 1.08 gofynnodd y Cynghorydd Mackie am wybodaeth ar y system TG a gofynnodd a oedd yn hygyrch i bawb. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr y byddai'r System TG yn darparu teclyn effeithiol i'r ysgolion gofnodi pob cysylltiad gyda rhieni, plant a phobl ifanc o'r dechrau yn sgil y posibilrwydd o her gyfreithiol a dywedodd nad oedd hyn wedi bod ar waith o'r blaen. Fe fydd yn amhrisiadwy i'r awdurdod lleol ac ysgolion petai achosion yn mynd i'r Tribiwnlys gan ei fod yn cofnodi lefel yr ymyrraeth a chefnogaeth a roddwyd a sicrhau bod yr Awdurdod wedi bodloni ei gyfrifoldebau statudol o fewn yr amserlen a osodir gan y Ddeddf. Roedd modd i rieni gael mynediad i'r wybodaeth yma hefyd.

Yn drydydd, ym mhwynt 2.01 mynegodd y Cynghorydd Mackie bryderon am y llinell olaf "y cynnydd disgwylidig mewn costau cyfreithiol i ymateb i'r lefel yr her gyfreithiol a ragwelir". Gofynnodd am ragor o wybodaeth am hyn. Fe soniodd yr Uwch Reolwr am y sefyllfa yn Lloegr a newidiodd ei system yn 2014 ac sydd bellach â system gyfreithiol i ymdrin ag Anghenion Addysgol Arbennig. Gyda'r newidiadau yma dechreuodd yr amddiffyniad cyfreithiol ar y pwynt pan canfyddir bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol neu beidio, gyda'r hawl i apelio gan y plentyn neu riant o'r pwynt hwnnw. Mae hyn wedi cael ei godi gyda'r Prif Swyddog a chydweithwyr cyfreithiol gan bod yna botensial am lawer o weithgarwch cyfreithiol gan ei bod yn system newydd. Fe soniodd y Prif Swyddog am yr adolygiad gan dîm y Prif Swyddog i adnabod goblygiadau i'r portffolio, cydweithwyr cyllid a chyfreithiol yn sgil y Ddeddf hon. Fel awdurdod lleol, fe geiswyd cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i gynghori a chefnogi ysgolion i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer unrhyw heriau posibl. Byddai angen cynnwys cefnogaeth o fewn y tîm cyfreithiol er mwyn sicrhau bod capasiti.

Cyfeiriodd Mrs Bartlett at gyfrifoldebau enfawr y Cydlynnydd ADY mewn ysgolion a gofynnodd a oedd ysgolion wedi cael canllawiau a oedd yn swydd cyflogedig neu beidio ac a oedd hynny'n gyson ar draws ysgolion. Cytunodd yr Uwch Reolwr ei fod yn rôl gynhwysfawr a chadarnhaodd bod enghraifft o'r swydd-ddisgrifiad wedi cael ei ddsbarthu i ysgolion gydag argymhelliad gan LIC

a'r awdurdod y dylai'r swydd hon fod ar yr un lefel ag uwch reolwyr y tîm arweinyddiaeth yn yr ysgol oherwydd ei chymhlethdod a'i phwysigrwydd. O ran y cyflog roedd yr awdurdod wedi rhoi cyngor pan ofynnwyd, ac yna fe soniodd am y ffyrdd gwahanol mae ysgolion yn darparu hyn gyda rhai Penaethiaid yn y swydd ac eraill yn gofyn i nifer o weithwyr gydweithio gydag un person dynodedig yn y swydd er mwyn sicrhau bod prosesau ar waith.

Cyfeiriodd Mrs Stark at y system TG newydd a gofynnodd ai'r Cydlynnydd ADY oedd â chyfrifoldeb am gofnodi'r wybodaeth ar gyfer eu hysgol neu a fyddai mwy o staff yn cael eu hyfforddi i wneud hyn. Roedd hi'n bryderus gan fod yna oblygiadau cyfreithiol os nad ydi'r wybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i ddechrau ar gyfer y Cydlynwyr ADY a chytunwyd y byddai angen monitro'r wybodaeth sy'n cael ei gofnodi ar y system yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir petai'n mynd i dribiwnlysoedd. Mae Gweinyddwr System TG wedi cael ei benodi i gefnogi'r system o'r enw ECLIPSE ac fe gynigiwyd y byddai cyfnod peilot yn cael ei lansio ym mis Medi. Mae pedwar Awdurdod yng nogledd Cymru wedi prynu'r system yma, a bu llawer o waith gan swyddogion penodol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn a'i fod yn addas i'r diben. Bydd y Gweinyddwr yn cyflwyno hyfforddiant ar y system a chefnogi ysgolion gan mai'r gobaith yw y bydd ym mhob ysgol erbyn mis Hydref.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorydd Gladys Healey a Mrs Rebecca Star.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried yr adroddiad am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

6. DIOGELU MEWN ADDYSG

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gan yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) a rhoddodd ddiweddariad am gyflawni dyletswyddau diogelu statudol mewn ysgolion a'r portffolio Addysg gyda'r fformat yn wahanol eleni oherwydd y pandemig.

Rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â sut mae ysgolion yn edrych ar ddiogelu a'r newidiadau yn lle Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a gofynion Estyn. Canmolodd y modd y mae disgyblion a staff addysgu wedi addasu i'r ffyrdd gwahanol o ddysgu, boed yn yr ystafell ddosbarth neu ar y we, gydag athrawon yn cadw cysylltiad gyda phlant a rhieni ac roedd hyn yn fater o bryder a chyfrifoldeb i ysgolion. Fe soniodd am y berthynas weithio agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant a'r Grŵp Tactegol Arian a dywedodd bod gan ysgolion heriau gwahanol bob blwyddyn gyda diogelu yn y rheng flaen.

Roedd yr ymateb i Covid 19 a Deddf ADY wedi arwain at weithdrefnau newydd ar gyfer diogelu a darparwyd hyfforddiant priodol i gefnogi hyn. Fe gyfeiriodd at yr heriau gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol gyda phlant yn gorfod cael mynediad i'r rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol a chadarnhaodd y byddai

adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant.

Yna rhoddodd yr Uwch Reolwr wybodaeth fanwl am Weithdrefnau Cymru oedd wedi'u diweddarau, Diweddiariad am Ganllawiau i Ysgolion, hyfforddiant dros y we a chefnogaeth broffesiynol i Benaethiaid, Llywodraethwyr ac ysgolion. Fe gadarnhaodd bod Claire Sinnott wedi cydlynu hyn ac wedi darparu trosolwg o Ddiogelu yn y Panel Addysg a'i fod yn gysylltiedig gyda'r Panel Diogelu Corfforaethol. Bu'r panel yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod prosesau ar waith yn yr ysgolion, yn cael eu cefnogi, eu monitro a'u dwyn i gyfrif o ran diogelu. Nid yw hyn yn rhywbeth sefydlog ac mae'n newid yn gyson. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau bod hyn yn cael ei herio'n gyson ac yn symud ymlaen. Canmolodd yr Uwch Reolwr (Plant a Gweithlu) y gwaith cadarnhaol rhwng ysgolion, addysg a gwasanaethau cymdeithasol gyda phlant yn y rheng flaen a chafodd hyn ei atgyfnerthu gan waith y Grŵp Tactegol Arian. Roedd yn teimlo anrhydedd i fod yn rhan ohono. Roedd y Prif Swyddog yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Uwch Reolwr (Plant a Gweithlu) a alluogodd ymatebion cadarn i gefnogi plant a phobl ifanc diamddiffyn trwy gydol y pandemig.

Cyfeiriodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol at y gwaith a wnaed gyda'r Panel Diogelu Corfforaethol sydd yn sicrhau bod pob plentyn cael ei gefnogi ac yn derbyn y gofal gorau ond roedd hyn wedi cael ei wneud yn wahanol. Yn ystod y pandemig, roedd adran Addysg a Gofal Cymdeithasol wedi sicrhau bod pob teulu'n cael ei fonitro dros y we ac yn bersonol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth oedd ei angen arnynt. Roedd hi'n arbennig o falch o'r modd roedd Sir y Fflint wedi ymateb i ddiogelu a bob amser yn rhagweithiol wrth ddatblygu gweithdrefnau newydd, hyfforddiant a gwaith partneriaeth gwych ar gyfer plant ac oedolion. Fe ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ei fod wedi cyd-gadeirio'r Panel Diogelu gyda Phrif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a chyda cefnogaeth Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, roedd hyn wedi atgyfnerthu'r dull diogelu corfforaethol dros y blynyddoedd diweddar. Roedd diogelu bob amser yn newid ac roedd angen ei herio'n gyson, roedd dysgu a datblygu a'r gweithdrefnau newydd yn gam sylweddol yng Nghymru ac mae cydweithwyr ar draws y Cyngor wedi rheoli hyn yn dda er mwyn sicrhau ei fod yn symud ymlaen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at y plant oedd yn cael eu haddysgu gartref a gofynnodd pwy oedd yn monitro'r plant yma er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal. Gofynnodd hefyd pwy oedd yn talu am blant oedd yn cael eu haddysgu gartref. Roedd gan Sir y Fflint ddyletswydd gofal am y plant yma, ac roedd ganddi bryderon oni bai bod rhiant yn athro neu'n athrawes, sut allan nhw ddilyn ac addysgu'r cwricwlwm. Atebodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) gan ddweud bod y mater o addysgu gartref yn rhywbeth sydd angen ei drafod ar ei ben ei hun ac awgrymodd y gellir cynnwys y mater yma ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ar gyfer y gylchred yma. Byddai'r adroddiad yn cynnwys y prosesau roedd yr awdurdod lleol yn ymgymryd â nhw, ei gyfrifoldebau statudol a monitro ansawdd yr addysg sy'n cael ei ddarparu. Dywedodd y Prif Swyddog bod y plant yma y tu allan i systemau'r awdurdod gan bod y rhieni wedi dewis eu cymryd allan o'r ysgol a'u cyfrifoldeb nhw oedden nhw. Nid oedd yr awdurdod yn derbyn cyllid ar gyfer y plant yma, ond roeddynt yn monitro ansawdd y cwricwlwm oedd yn cael ei

ddarparu. Fe ychwanegodd mai'r her oedd y lefel o bwerau ymyrraeth oedd gan yr awdurdod ac y byddai hyn yn cael ei amlinellu yn yr adroddiad. Aeth ymlaen i ddweud os nad oedd y plentyn yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd rhesymau penodol yna byddai'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant yn gallu trefnu darpariaeth addas. Mewn achosion pan oedd dewis ysgol cyntaf y rhieni'n llawn fe gadarnhaodd y byddai rhieni'n cael cynnig llefydd eraill mewn ysgolion ond eu dewis nhw fyddai derbyn lle arall neu benderfynu addysgu eu plentyn gartref. Fe awgrymodd y Prif Swyddog bod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac lechyd fel y cytunwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones ei fod yn adroddiad ardderchog oedd wedi cyflawni cymaint cyn effaith y pandemig. Gofynnodd y cwestiynau canlynol:-

- Yn yr adroddiad o dan ymgynghoriad mae'n dweud "ddim ei angen", o ystyried yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf, gofynnodd a ddylid ystyried ymgynghoriad.
- Ym mhwynt 1.06 yn yr adroddiad mae'n dweud mai dogfen wedi'i diweddarau o fis Hydref 2020 oedd hi, ond ers hynny mae yna lawer o wybodaeth am ddefnyddio e-gyfathrebu yn amhriodol ymysg plant ac erbyn hyn mae bwlio a secstio wedi symud ar-lein gyda phlant yn tynnu sylw at oblygiadau'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. Gofynnodd ai'r ddogfen hon oedd y lle i fynd i'r afael â hynny.
- Ym mhwynt 1.04 cyfeiriodd at y pwyntiau bwled a gofynnodd ai yma roeddem ni'n ymateb yn gyflym i'r hyn roedd plant wedi'i ddatgelu yn y misoedd diwethaf fel bwlio dialgar a niweidiol. Ai dyma'r lle i fynd i'r afael â'r materion yma ac ychwanegu at y ddogfen allai gryfhau ein gweithredoedd ynglŷn â sut ydym ni'n cadw'r plant yma oedd yn ddiodefwr yn ddiogel? Roedd yn gofidio ar ôl darllen bod ysgol wedi awgrymu y dylai merched wisgo siorts o dan eu sgertiau er mwyn atal rhywun rhag tynnu llun gyda ffonau symudol i fyny eu sgertiau, ac roedd yn teimlo bod hyn yn gwneud y diodefwr yn gyfrifol am yr hyn oedd yn digwydd iddynt, ac y dylai'r awdurdod fod yn ymyrryd gyda phwy bynnag oedd yn cyflawni'r troseddau yma.

Wrth ymateb rhannodd yr Uwch Reolwr bryderon y Cynghorydd Jones yn yr adroddiadau gan bobl ifanc, ac roedd hi'n croesawu ymateb LIC a'r Gweinidog i ofyn i Estyn ymchwilio i hyn ac edrych ar y diwylliant roedd rhai o'n pobl ifanc gorfod ei wynebu. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r awdurdod yn gweithio gydag Estyn ac ni ddylai ysgolion fod yn hunanfodlon. Fe gyfeiriodd yr aelodau at adran Cadw Dygwyr yn Ddiogel ar Hwb, sef plattform gan LIC sydd ag adnoddau a darpariaeth i ysgolion, ac mae hefyd yn darparu dogfennau ategol i'r ysgolion ac ymarferwyr ar gyfer y problemau hynny. Mae'r tîm yn LIC wedi bod yn cydlynu ystod o adnoddau a dogfennau ynghyd â chanllawiau i ysgolion i gadw dysgwyr yn ddiogel, caiff y canllawiau eu diweddarau'n rheolaidd a chafodd hyn ei hyrwyddo i ysgolion. Fe gadarnhaodd bod cyngor penodol wedi cael ei ddarparu i ysgolion ynglŷn â lluniau amhriodol sy'n cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Rhoddodd wybodaeth am Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhynggrwyd a gwaith y Gweithgor Addysg, ond yr heriau oedd bod y byd digidol

yn symud mor gyflym a bod hyn angen bod yn ymatebol i'r angen. Mae hyn yn broblem gymdeithasol yn ogystal â phroblem yn yr ysgolion a dylai cyrff llywodraethu gymryd rhan a gofyn cwestiynau. Roedd hyn ar yr rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Aeth ymlaen i roi gwybodaeth am y gefnogaeth a'r cyngor sy'n cael ei roi i ysgolion drwy hyfforddiant, cysylltiadau gyda Gwasanaethau Plant a gwella'r gefnogaeth i staff dynodedig yn yr ysgolion a'r cynllun i symud ymlaen.

Cyfeiriodd Mr Hytch at adroddiad Swyddfa Safonau ac Addysg a'r wefan everyoneinvited.com. Mae'r wefan hon yn galluogi pobl i adrodd digwyddiadau a dywedodd bod hanner ysgolion uwchradd Sir y Fflint wedi adrodd digwyddiadau yno, ac ychydig o ysgolion cynradd yn anffodus. Roedd y Comisiynydd Plant yn teimlo bod y broblem yn dipyn mwy na hyn, ac mae wedi gofyn am Adolygiad Estyn. Gofynnodd y cwestiynau canlynol:-

Yn gyntaf, o ran ymholiadau amhriodol gan y cyfryngau lleol, gofynnodd a oedd yna strategaethau ar waith i ateb y rhain heb ddatgelu'r unigolion ac ysgolion.

Yn ail, allai golwg fwy trylwyr ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r materion yma oedd yn broblem ehangach nag ysgolion, yr awdurdod a'r cyrff llywodraethu gael eu hystyried. Roedd y diwylliant yma'n fwy eang na'r oes cyn y byd digidol ac roedd yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Addysg, Ieuenctid a Diwylliant yn gallu edrych ar hyn yn fanwl.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at yr ohebiaeth e-bost rhyngddi hi a Mr Hytch a rhoddodd sicrwydd iddo os oedd ysgol yn derbyn ymholiad gan y wasg roeddynt yn cael eu cyfeirio i swyddfa'r wasg yn y Cyngor a fydd yn gweithio gyda'r ysgol i wneud datganiad priodol. Cyfeiriodd at y wefan a'r ysgolion sydd wedi'u henwi a dywedodd bod swyddogion yn gweithio gyda'r ysgolion hynny. Roedd hyn ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfodydd portffolio a diogelu corfforaethol a fyddai'n cael eu cynnal yn fuan. Fe soniodd hefyd am ymgysylltu gyda ysgolion a chyfarfod Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd.

Diolchodd y Cyngorydd Marion Bateman i'r Swyddogion am eu hymroddiad a gwaith caled. Cyfeiriodd at ddigwyddiad a ddaeth i'w sylw (ddim yn Sir y Fflint) am blentyn 6 oed oedd yn cymryd rhan mewn gwerns o bell yn ystod y cyfnod clo pan oedd yr athro adref. Cafodd y plentyn 6 oed ei gadael yng ngofal nai hŷn, ac ar ôl mewngofnodi i'r wers, gadawodd y nai y plentyn ar ei ben/phen ei hun yn y tŷ. Daeth hyn yn amlwg i'r athro yn ystod y wers. Gofynnodd Cyngorydd Bateman petai hynny'n digwydd yn Sir y Fflint, pa gamau fyddai'r athro yn eu cymryd a beth fyddai'n digwydd yn syth.

Wrth ymateb i'r Prif Swyddog cadarnhaodd y byddai'r athro yn dilyn gweithdrefnau diogelu plant yr ysgol ac yn trafod y mater gyda'r Swyddog Arweiniol Diogelu Dynodedig a fyddai'n cymryd y weithred briodol i siarad gyda'r Gwasanaethau Plant er mwyn ymchwilio i'r mater. Roedd hi'n teimlo'n hyderus na fyddai unrhyw aelod o staff yn teimlo'n gyndyn o wneud hyn oherwydd y lefel o hyfforddiant roeddynt wedi'i gael. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr bod ysgolion wedi derbyn canllawiau clir ar ddechrau'r pandemig yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol gan LIC. Dylai dau aelod staff fod ar y sgrin bob amser er mwyn gallu cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig ac mae yna bob amser rhywun yn yr ysgol allai weithredu hyn ar unwaith.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol at bwynt y Cynghorydd Healey am blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref gan ddweud ei bod wedi bod yn rhoi pwysau ar LIC ers nifer o flynyddoedd i gael cofrestr ar gyfer plant sydd yn cael eu haddysgu gartref. Roedd yr Aelod Cabinet a Phrif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) wedi cyfarfod â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd. Roedd o wedi cytuno i ychwanegu ei gefnogaeth o, a gobeithio y byddai hyn yn symud y mater yn ei flaen ymhellach.

Roedd Mr Hytch yn cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Jones ynglŷn â bwlio ar-lein, gyda thystiolaeth yn dangos cynnydd yn ystod y pandemig. Fe gyfeiriodd at agwedd y Pwyllgor Addysg, Ieuencid a Diwylliant i beidio â gwneud sylwadau cas ar-lein, cafodd hyn ei gefnogi gan y Cyngor Llawn a'r gobaith yw y bydd hyn cael ei gario drwodd i ysgolion a gwasanaethau er mwyn newid y diwylliant. Yn anffodus nid cyfrifoldeb yr ysgolion oedd hyn gan ei fod yn digwydd gartref yn ystafelloedd gwely'r plant, ond ysgolion oedd yn cael y bai, ond fe allent newid yr ymddygiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Janet Axworthy ac Ian Smith.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod cynnwys adroddiad diogelu mewn addysg yn cael ei nodi.
- (b) Bod gwaith cadarnhaol ysgolion Sir y Fflint i ddiogelu plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig yn cael ei nodi.

7. THERAPI AML SYSTEMIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu). Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth aml-asiantaeth i ddarparu cefnogaeth therapiwtig ddwys i bobl ifanc. Llongyfarchodd Dîm Therapi Aml Systemig Gogledd Ddwyrain Cymru oedd wedi derbyn gwobr ar gyfer "*Whatever it takes*" am fynd yr ail filltir y tu hwnt i'r hyn oedd yn cael ei gydnabod drwy gydol Rhaglen Therapi Aml Systemig, a chafodd ei roi i unigolion yn y gymuned Therapi Aml Systemig sydd wedi arddangos gwasanaeth rhagorol a haeddiannol. Fe eglurodd bod y tîm wedi cynllunio, cychwyn, cyflwyno a llwyddo trwy gydol y pandemig.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr yr adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o ddull partneriaeth y tîm a dywedodd bod Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid LIC i edrych ar greu prosiectau partneriaeth i drawsnewid y modd mae Gwasanaethau Plant yn gweithio. Roedd yr arian yn rhanbarthol ond daeth i mewn drwy ôl troed y Bwrdd Iechyd yn lleol ar gyfer Wreccsam, Sir y Fflint a BIPBC. Roedd y prosiect newydd dderbyn gwerthusiad dros dro gan Brifysgol Brooks Rhydychen o ran sylfaen y dystiolaeth am y gwasanaeth yma. Yr hyn oedd yn amlwg oedd y gwaith partneriaeth cadarnhaol gyda'r adran Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion i ddarparu cefnogaeth ddwys i blant a theuluoedd oedd ar fin derbyn gofal. Roedd hyn yn galluogi cefnogaeth ddwys, ataliol er mwyn osgoi'r angen i blant dderbyn gofal a sicrhau eu bod yn gallu aros gyda'u teuluoedd.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am:-

- Asesiad Sylfaenol – Beth sy'n gweithio? - Nodweddion cyffredin – Amcanion
- Pam Therapi Aml Systemig? - Ynglŷn â Therapi Aml Systemig – Nod Therapydd Aml Systemig yw:
- Gweithredu
- Y gefnogaeth hyd yn hyn
- Gwerthuso – Canfyddiadau'r gwerthusiad
- Canfyddiadau Allweddol
- Cam 2

Roedd y Cadeirydd yn credu bod hyn yn chwa o awyr iach yn enwedig y staff oedd yn gweithio bob awr o'r dydd a gofynnodd bod yr Uwch Reolwr yn rhoi gwybod iddynt bod y Pwyllgor yn canmol eu gwaith wrth gamu i'r adwy i gefnogi'r rhieni.

Dyweddodd y Cynghorydd Mackie petai'r teuluoedd yma'n cael eu cefnogi i gyflawni newid gwirioneddol o ran rhianta, gobeithio y gallai hyn dreiddio lawr i'r genhedlaeth nesaf ac yn y blaen a oedd mor bwysig. Roedd yn falch o ddarllen 1.08 o ran y tîm "Whatever it takes" a oedd yn gadarnhaol iawn.

Cyfeiriodd at dudalen 34, y Dadansoddiad a'r paragraff olaf am Hanes Teulu, a gofynnodd a oedd yr awdurdod wedi cael pethau'n gywir yn y gorffennol tra'n gweithio gyda'r teuluoedd yma o ran ymyraethau, ac a fyddai symud i'r system newydd yma'n torri'r gylchred.

Wrth ymateb, fe eglurodd yr Uwch Reolwr bod ymddygiad rhai o'r teuluoedd roeddynt yn gweithio gyda nhw wedi'i hen sefydlu ac yn genedliadol, a gyda gwaith amddiffyn plant, roedd yn canolbwyntio meddyliau teuluoedd i greu newid. Ar ôl i'r plant gael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, mater gwirfoddol oedd gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac nid oedd modd ei orfodi. Byddai'r gwasanaeth yma'n darparu model mwy therapiwtig gan gydweithwyr CAHMS er mwyn mynd i'r afael â materion sylfaenol ar gyfer y rhieni a phlant a dangos sut y gallent gyflawni newid eu hunain. Dywedodd bod angen amser i weithio drwy faterion megis camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl isel ac yn y gorffennol nid oedd modd i weithwyr cymdeithasol roi cymaint o amser oherwydd llwyth gwaith. Roedd y gwasanaeth yma'n dod â'r holl arbenigedd yma ynghyd gan edrych ar y teulu cyfan er mwyn sicrhau newid cynaliadwy. Cyfeiriodd at wasanaethau Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg oedd yn cefnogi rhieni o 0-7 oed, ond wrth gyrraedd blynnyddoedd yr arddegau, nid oedd y gefnogaeth gystal ag dylai fod ac roedd y prosiect yma'n dangos i ble roedd yr awdurdod eisiau mynd gyda'n gwasanaethau a chynnig i deuluoedd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at *Where We Go Next* yn yr adroddiad ac awgrymodd y dylid ystyried gwasanaeth tebyg i Mockingbird a fyddai'n darparu amgylchedd teulu cyfan lle gallent fynd pan fyddant angen cymorth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cunningham at dudalen 40 yn yr adroddiad "*Out of Hours Support 24/7*" oedd yn brawf bod y gwasanaeth ardderchog yn gweithio a dywedodd nad oedd yn credu bod yr awdurdod wedi cael pethau'n anghywir yn y gorffennol, ond efallai nad oedd pethau wedi gweithio iddynt.

Roedd y Cadeirydd yn teimlo bod yr awdurdod yn dysgu drwy'r amser ac y gallai hyn weithio ond roedd yn poeni am y nifer o bobl a fyddai'n cael eu gwrthod oherwydd nad oedd y staff neu'r capasiti ar gael i bawb.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at uchelgais y Cyngor i gyflawni gofal preswyl mewnol. Cafodd hyn ei drafod yn seminar y Cyngor.

Wrth i ni symud ymlaen gyda gofal preswyl, fe sylweddolwyd bod hyn yn ymwneud â mwy nag adeilad, y gofal, y gefnogaeth, yr asesiad a therapi oedd yn digwydd yn yr adeilad oedd yn bwysig.

Roedd model FIT Therapi Aml Systemig yn cael ei ddefnyddio felly pan fyddai gofal preswyl yn cael ei ymestyn, fe fyddai yna dîm FIT yno i weithio gyda'r plant hynny. Fe ychwanegodd mai'r nod oedd y byddai plant yn dychwelyd adref neu'n symud i ofal maeth pan fyddai'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny, ac mai agwedd Sir y Fflint at leoliadau 'Tu Allan i'r Sir' oedd adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu drwy'r Therapi Aml Systemig a sut rydym ni'n dod â'r mentrau yma ynghyd.

Fe soniodd y Prif Swyddog bod y cyfryngau cenedlaethol yn llawn straeon am Wasanaethau Plant a heriau am y niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Fe ychwanegodd bod y gwasanaeth yn dysgu'n gyson a bod Therapi Aml Systemig wedi dangos sut i ddiwygio a gwella sbectwm y gwasanaethau'n well. Roedd yna gymaint o fentrau cadarnhaol yn Sir y Fflint oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Plant oedd yn rhoi anogaeth yn cynnwys Mockingbird, Therapi Aml Systemig, Gofal Preswyl, agweddau gweithlu a Chanolfan Cymorth Cynnar. Rhoddodd deyrnged Craig, Jenny Frost a Peter Robson am ddatblygu'r gwasanaeth mewn cyfnod heriol iawn ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus dros y 18 mis diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie ei fod yn hapus iawn â'r nifer o fentrau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol ac lechyd sydd yn gwneud ei waith o o graffu yn anodd iawn gan ei fod yn gweld prosiectau da, a'u bwriad yw cael effaith cadarnhaol ar bopeth sydd yn mynd ymlaen.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Paul Cunningham a Jean Davies.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith er mwyn mynd ati'n ddiogel i leihau nifer y plant sydd angen gofal drwy ddarparu cymorth ddwys Therapi Aml Systemig wedi'i dargedu i deuluoedd.
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi sefydlu Cartref Gofal Preswyl i Blant yn yr awdurdod lleol fel rhan o ddull o ail gydbwysu darpariaeth gofal i blant, gan roi sylw i sicrhau amrediad fforddiadwy a digonol o leoliadau lleol o ansawdd uchel.

8. **AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.
(Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a gorffennodd am 4:03pm)

.....

Y Cadeirydd